

## **Arolygiad Gwasanaeth Iechyd Meddwl (Dirybudd)**

Tŷ Llidiard

Ward Enfys a Ward Seren

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Cwm Taf

Dyddiad yr Arolygiad: 26 - 28 Mawrth  
2017

Dyddiad Cyhoeddi: 29 Mehefin 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan GIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**Ebost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

|    |   |    |
|----|---|----|
| 1. | Cyflwyniad.....                           | 2  |
| 2. | Cyd-destun.....                           | 3  |
| 3. | Crynodeb .....                            | 4  |
| 4. | Canfyddiadau .....                        | 5  |
|    | Ansawdd profiad y claf .....              | 5  |
|    | Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ..... | 11 |
|    | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....  | 21 |
| 5. | Y camau nesaf .....                       | 24 |
| 6. | Methodoleg .....                          | 25 |
|    | Atodiad A.....                            | 27 |

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad dirybudd o Wasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) Tŷ Llidiard ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf fin nos, dydd Sul 26 Mawrth ac yn ystod y dydd ar 27 a 28 Mawrth 2017. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Enfys
- Ward Seren

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys un rheolwr arolygu AGIC a dau adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd Deddf Iechyd Meddwl enwebedig).

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennau gennym ar gyfer cleifion a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfriad â'r Ddeddf.

Mae rhagor o fanylion am ein dull o arolygu gwasanaethau GIG ar gael yn Adran 6.

## 2. Cyd-destun

Ar hyn o bryd, mae Tŷ Llidiard yn darparu gwasanaeth cleifion mewnol iechyd meddwl plant a'r glasoed yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer de Cymru. Mae Tŷ Llidiard yn rhan o Gyfarwyddiaeth y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Ysbyty rhywiau cymysg â 19 o welyau yw'r lleoliad. Roedd 18 o gleifion yno ar adeg yr arolygiad.

Er ei fod wedi ei leoli ar dir Ysbyty Tywysoges Cymru, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, gweithredir Tŷ Llidiard gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar gyfer cleifion o bob cwr o dde Cymru.

### 3. Crynodeb

Canfuwyd tystiolaeth gennym yn gyffredinol fod Tŷ Llidiard yn darparu gofal urddasol a thrugarog i gleifion. Fodd bynnag, roedd diffygion sylweddol a niferus a oedd yn golygu nad oeddem yn sicr fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Dyma a ganfuwyd gennym fod y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn darparu gofal i gleifion yn Nhŷ Llidiard mewn ffordd barchus.
- Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth wedi eu cwblhau i safon dda.
- Roedd y staff yn gadarnhaol am ba mor agored oedd y tîm amlddisgyblaeth.
- Roedd y staff yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent yn ei dderbyn gan ei gilydd a rheolwyr y ward.

Dyma'r hyn yr ydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth ei wella:

- Ansawdd y broses o gadw cofnodion.
- Ansawdd a chyfradd gwblhau archwiliadau clinigol.
- Cadernid gweithdrefnau diogelwch.
- Cydymffurfiad â hyfforddiant gorfodol staff.
- Gyda phartneriaid perthnasol, adolygu'r ddarpariaeth CAMHS ar gyfer de Cymru.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

Mae Tŷ Llidiard yn ysbyty a adeiladwyd yn bwrpasol i ddarparu gofal cleifion mewnol Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Roedd yn amlwg bod ymdrech fawr wedi cael ei gwneud i ddarparu amgylchedd priodol i'r grŵp cleifion dderbyn gofal gydag urddas. Fodd bynnag, roedd meysydd o gynhaliaeth yn ofynnol.

Trwy gydol ein harolygiad, gwelsom y staff yn trin y cleifion gyda pharch a charedigrwydd. Roedd y staff yn gwneud pob ymdrech i gynnal urddas y cleifion.

Bu achlysuron yn ystod 2016 pan leolwyd cleifion '*y tu allan i'r ardal*' oherwydd aciwtedd ac anghenion cymhleth y grŵp cleifion yn Nhŷ Llidiard. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ymgysylltu â phartneriaid perthnasol i adolygu darpariaeth CAMHS de Cymru i sicrhau bod capasiti digonol i ddarparu mynediad amserol at ofal yn eu gwasanaeth lleol.

### Gofal gydag urddas

#### *Safon 4.1 Gofal gydag urddas*

*Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle mae pawb yn cael ei drin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd ac sy'n cydnabod ac yn diwallu anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion.*

Canfuwyd gennym fod cleifion yn yr ysbyty yn cael eu trin gydag urddas a pharch gan y staff.

Mae Tŷ Llidiard yn ysbyty a adeiladwyd yn bwrpasol yn 2011 i ddarparu gofal i bobl ifanc 12 i 18 mlwydd oed. Roedd yn amlwg bod ymdrech fawr wedi cael ei gwneud i ddarparu amgylchedd priodol i'r grŵp cleifion dderbyn gofal gydag urddas.

Ar y cyfan, roedd yr amgylchedd trwy Dŷ Llidiard yn lân ac wedi ei gynnal a'i gadw'n dda. Fodd bynnag, roedd y canopi gwydr wrth y fynedfa yn fudr iawn ac roedd angen ei lanhau. Nodwyd gennym hefyd fod angen glanhau'r

fffenestri, a'r rhai y tu ôl i'r sgriniau rhwyll sy'n atal eitemau rhag cael eu pasio trwy ffenestri agored yn arbennig.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd lanhau'r canopi mynedfa gwydr yn Nhŷ Llidiard.***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ffenestri yn Nhŷ Llidiard yn cael eu glanhau'n rheolaidd gan gynnwys y tu ôl i sgriniau rhwyll.***

Roedd rhywfaint o ddifrod arwynebol i waliau mewn hefyd, gan gynnwys tyllau a chraciau yn y gwaith paent ac ysgrifen wedi ei sgriblan ar y wal, yn enwedig yn y lolfa fach ar Ward Seren. Gallai hyn effeithio ar lesiant emosiynol claf.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal archwiliadau amgylcheddol rheolaidd i nodi a thrwsio unrhyw ddifrod i'r amgylchedd yn Nhŷ Llidiard.***

Roedd difrod i ran fach o lawr y coridor y tu allan i ystafell fwyta'r cleifion ar Ward Enfys. Rhoddwyd tâp ar y man i atal unrhyw ddifrod pellach neu anaf i gleifion, staff neu ymwelwyr; roedd angen trwsio hyn yn barhaol fodd bynnag.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd drwsio'r difrod i lawr y coridor ar Ward Enfys.***

Roedd "hysbysfwrdd cipolwg ar statws cleifion"<sup>1</sup> ym mhob swyddfa ward yn dangos gwybodaeth gyfrinachol am bob claf a oedd yn derbyn gofal ar y ward. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gyfleusterau i guddio'r wybodaeth gyfrinachol pan nad oedd yr hysbysfyrddau'n cael eu defnyddio. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion neu ymwelwyr weld y wybodaeth gyfrinachol hon pan roeddent yn dod i mewn i'r swyddfa.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

---

<sup>1</sup> Hysbysfwrdd sy'n galluogi staff i gyfeirio'n gyflym at wybodaeth hanfodol am y cleifion unigol sy'n derbyn gofal ar y ward.



***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y gall y staff orchuddio hysbysfyrdau cipolwg ar statws pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.***

Roedd gan y cleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain â chyfleusterau ensuite yn cynnwys toiled, sinc a chawod. Roedd ystafelloedd gwely'r cleifion wedi eu dodrefnu'n briodol ac roedd digon o le ynddynt i'r claf a'i eiddo. Roedd y cleifion yn gallu cael mynediad at eu hystafelloedd gwely yn rhydd a'u cloi o'r tu mewn; roedd y staff yn gallu agor y cloeon os oedd angen.

Roedd gan gleifion ar bob ward fynediad at erddi caeedig. Roedd y rhain wedi cael eu cynllunio i fod yn addas ar gyfer y grŵp cleifion ifanc. Fodd bynnag, ar adeg ein harolygiad, roedd angen gwneud gwaith cynnal a chadw ar y gerddi, fel; cael gwared ar chwyn a phlanhigion a oedd yn gordyfu ynghyd â glanhau'r arwynebau a'r cyfleusterau yn y gerddi.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn cael ei wneud ar y gerddi.***

Mae Tŷ Llidiard yn darparu mewnbwn addysg i gleifion o oedran ysgol. Y tu allan i oriau ysgol, mae gan gleifion gynlluniau gweithgarwch a therapi unigol ac roeddent yn gallu dewis pa weithgareddau a therapïau yr hoffent gymryd rhan ynddynt bob dydd. Roedd gan y cleifion fynediad at ystafelloedd therapi a gweithgareddau fel ystafell gemau ac ystafell gerddoriaeth. Roedd cegin therapi galwedigaethol hefyd a oedd ar gael i'r cleifion ar gyfer sesiynau unigol a grŵp.

Un datblygiad ers ein harolygiad blaenorol yn 2015 oedd cyflwyno ystafell celf a chreffft ar Ward Enfys. Mae'n ymddangos bod yr ystafell gweithgareddau celf a chreffft yn cael ei gwerthfawrogi a'i defnyddio'n helaeth gan y cleifion a byddai'n elwa o sinc ymolchi a manau storio priodol ar gyfer eitemau celf a chreffft fel y gellir eu storio'n daclus ac yn ddiogel.

Yn siomedig, fe'n hysbyswyd nad oedd yr ystafell sinema yn cael ei defnyddio mwyach. Nid oedd y staff yn eglur pam nad oedd yr ystafell sinema yn cael ei defnyddio at y diben a fwriadwyd. Roedd bwrdd pŵl yn Nhŷ Llidiard hefyd, ond roedd y brethyn wedi ei ddifrodi'n ofnadwy, a oedd yn golygu na ellid defnyddio'r cyfleuster gwerthfawr hwn. Dywedodd y staff wrthym fod y ddau gyfleuster hyn yn cael llawer o ddefnydd gynt ac o fudd i brofiad y claf.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ystafell sinema i sicrhau ei bod yn weithredol ac yn ddiogel i'r cleifion ei defnyddio.***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd drwsio brethyn y bwrdd pŵl.***

Roedd eitemau wedi'u difrodi yn aros i gael eu casglu hefyd, fel; dodrefn wedi'i ddifrodi yn yr ystafell chwarae nad yw'n cael ei defnyddio ar Ward Seren, droriau wedi eu difrodi yn ystafell Glinig Seren ac oerydd dŵr wedi torri yn ystafell fwyta Ward Enfys. Mae angen cael gwared ar y rhain am resymau diogelwch.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod eitemau wedi'u difrodi yn cael eu symud o'r ysbyty.***

Hefyd, roedd peiriant sebon a pheiriant llieniau papur wedi eu difrodi mewn un ystafell ymolchi ar Ward Seren. Nid oedd y man hwn yn cael ei ddefnyddio gan gleifion ar adeg yr arolygiad, ond mae angen disodli'r eitemau.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y peiriant sebon a'r peiriant llieniau papur sydd wedi eu difrodi yn cael eu trwsio.***

Roedd neuadd chwarae yn Nhŷ Llidiard i'r cleifion ei defnyddio. Roedd gollyngiad dŵr yn ystod ein harolygiad blaenorol a oedd wedi achosi difrod sylweddol. Er bod y gollyngiad wedi cael ei drwsio, gwelsom fod llawr y neuadd chwaraeon dal i fod wedi ei farcio yn sylweddol. Er nad yw hyn yn atal y neuadd rhag cael ei defnyddio, byddai'n elwa serch hynny o ddisodli'r manau sydd wedi eu marcio. Roedd man chwaraeon awyr agored hefyd, ar gyfer tenis, pêl rwyd a hoci.

Roedd gan yr ysbyty gerbyd neilltuedig hefyd fel y gallai'r staff fynd â'r cleifion i'r siopau lleol ac ar deithiau cymunedol ymhellach i ffwrdd. Pan fo'n briodol (ar ôl asesiadau risg) roedd cleifion hefyd yn gallu gadael yr ysbyty gyda'u teuluoedd neu heb gael eu hebrwng.

Roedd ystafelloedd neilltuedig i gleifion weld ymwelwyr. Roedd i'w gymeradwyo bod gan Dŷ Llidiard Fflat i Deuluoedd hefyd sy'n caniatáu i aelodau teulu aros dros nos; pan fo'n briodol, gall y claf aros yn y fflat hefyd. Roedd hyn o fudd mawr i aelodau teulu, yn enwedig y teuluoedd hynny sydd wedi eu lleoli cryn bellter o'r lleoliad gan ei fod yn darparu gofal cleifion mewnol i dde Cymru gyfan.

Gwelsom ymwelwyr yn dod i weld y cleifion trwy gydol yr arolygiad a nodwyd gennym fod y Fflat i Deuluoedd yn cael ei ddefnyddio hefyd.

Roedd gan y cleifion fynediad at ffôn ward i wneud galwadau personol. Roedd gan y cleifion amseroedd penodol hefyd pan allent ddefnyddio eu ffonau symudol.

*Safon 4.2 Gwybodaeth ar gyfer cleifion*

*Rhaid i bobl gael gwybodaeth lawn am eu gofal a honno'n hygyrch, yn ddealladwy ac mewn iaith a dull sy'n ystyriol o'u hanghenion i'w galluogi a'u helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu gofal fel partner cyfartal.*

*Safon 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol*

*Wrth gyfathrebu gyda phobl mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol.*

Roedd manau lle'r oedd gwybodaeth gyfredol i gleifion wedi ei harddangos yn eglur drwy'r ward gyfan, a nodwyd gennym fod arwyddion priodol drwy'r ward gyfan.

Trwy ein harsylwadau o ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu gyda'r cleifion yn effeithiol. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i'r claf unigol. Pan nad oedd cleifion yn eglur o hyd, neu'n camddeall, byddai'r staff yn egluro'r hyn a ddywedwyd yn amyneddgar.

**Gofal amserol**

*Safon 5.1 Mynediad amserol*

*Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn cael gofal yn y ffordd gywir, yn y lle cywir a chyda'r staff cywir.*

Mae Tŷ Llidiard yn darparu gofal cleifion mewnol i bobl ifanc 12 i 18 mlwydd oed sydd angen asesiadau iechyd meddwl yn yr ysbyty. Mae'r ysbyty yn

darparu gofal i gleifion o chwe bwrdd iechyd ledled y de<sup>2</sup>. Mae'r timau CAMHS cymunedol yn y chwe bwrdd iechyd yn atgyfeirio i Dŷ Llidiard.

Ar adeg ein harolygiad, roedd Tŷ Llidiard wedi ei gomisiynu fel ysbyty 15 gwely. Roedd cyfanswm o 19 ystafell wely yn yr ysbyty, 14 ystafell wely ar Ward Enfys a phum ystafell wely ar Ward Seren. Roedd 18 o gleifion yn derbyn gofal yn yr ysbyty yn ystod yr arolygiad.

Fe'n hysbyswyd bod Tŷ Llidiard yn darparu gofal i fwy o gleifion na'r gwasanaeth 15 gwely yr oedd wedi ei gomisiynu ar ei gyfer ac wedi ei staffio i'w ddarparu yn rheolaidd oherwydd y lefelau presennol o alw ar y gwasanaeth cleifion mewnol. Felly, roedd angen staff ychwanegol drwy'r system gronfa neu asiantaeth (gweler *Safon 7.1 Y Gweithlu*).

Fe'n hysbyswyd hefyd bod cleifion wedi cael eu lleoli '*y tu allan i'r ardal*' ar adegau yn ystod 2016 oherwydd diffyg gwelyau i gleifion yn Nhŷ Llidiard. Mae hyn yn golygu nad oedd rhai cleifion yn nalgylch de Cymru yn gallu derbyn mynediad amserol at ofal yn eu gwasanaeth lleol.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ymgysylltu â phartneriaid perthnasol i adolygu'r ddarpariaeth CAMHS yn ne Cymru i sicrhau bod capasiti digonol i ddarparu mynediad amserol at ofal yn eu gwasanaeth lleol.***

---

<sup>2</sup> Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac ardal ddeheuol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

## *Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol*

Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth a ddatblygwyd yn rhan o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 wedi eu cwblhau i safon dda; fodd bynnag, nid oeddent yn nodi anghenion na ddiwallwyd y cleifion.

Roedd proses cadw cofnodion wael yn Nhŷ Llidiard; roedd hyn yn cynnwys cwblhau cofnodion a ffeilio. Roedd gwallau a hepgoriadau mewn nifer o feysydd gan gynnwys dogfennau Deddf Iechyd Meddwl, siartiau arsylwi a Chofnodion Rhoi Meddyginiaeth.

Canfuwyd gwendidau gennym hefyd o ran cynnal diogelwch cleifion, ac roedd hyn yn cynnwys eitemau clinigol brys a meddyginiaethau a oedd wedi mynd heibio eu dyddiad terfyn, oedi cyn dod o hyd i dorwyr rhwymynau ac oedi cyn gallu cysylltu â'r rheolwr ar-alwad.

### **Cymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl**

Adolygwyd dogfennau cadw statudol pedwar claf a oedd yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) yn Nhŷ Llidiard.

Roedd ffeiliau'r cleifion yn anhrefnus ac roedd copi'au o ddogfennau statudol wedi eu ffeilio'n wael ac felly'n anodd eu hadolygu. Roeddem yn gallu dilysu fod yr holl achosion o gadw cleifion a adolygwyd yn cydymffurfio â'r Ddeddf; fodd bynnag, roedd nifer o feysydd i'w gwella yn unol â Chod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 2016.

Roedd dogfennau cadw Adran 5(2)<sup>3</sup> lle nad oedd y rhai a'u cwblhaodd wedi dileu'r opsiwn perthnasol i nodi mai nhw oedd yr "ymarferydd meddygol cofrestredig" neu'r "clinigydd cymeradwy" (nad yw'n ymarferydd meddygol cofrestredig).

Mewn un achos, nid oedd cofnod chwaith o ymgynghoriad y clinigydd cyfrifol gyda'r claf a'u proses o wneud penderfyniadau yn ffeil y claf. Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod hyn wedi digwydd felly.

---

<sup>3</sup> Adran (2) – Mae pŵer cadw meddyg yn rhoi'r hawl i'r awdurdodau gadw'r claf am hyd at 72 awr er mwyn i asesiad Deddf Iechyd Meddwl gael ei gynnal.

Gwelsom dystiolaeth o waith cadw cofnodion a ffeilio gwael yng nghofnodion y cleifion. Roedd nifer o gopïau o ddogfennau statudol ar goll o'r ffeiliau i ni eu hadolygu neu ddim ond un ochr o'r ffurflen wedi ei chopïo.

Wrth adolygu'r broses ar gyfer un achos o gadw o dan Adran 2<sup>4</sup>, roedd cofnodion y claf yn nodi y byddai'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy<sup>5</sup> yn hysbysu'r ward pan fo dyddiad ac amser yr asesiad wedi eu cytuno rhwng y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy a'r ddau feddyg (un meddyg teulu ac un meddyg Adran 12<sup>6</sup>). Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod safbwyntiau perthnasau'r cleifion a'r holl ystyriaethau eraill wedi cael sylw cyn gwneud y cais i gadw'r claf o dan Adran 2, fel y'i llywiwyd gan baragraffau 14.58 a 14.59.

Dywedodd y staff i ni siarad â nhw yn Nhŷ Llidiard eu bod angen hyfforddiant ar weinyddu'r Ddeddf. Roeddent hefyd yn teimlo nad oedd y capasiti staffio gwael yn caniatáu i'r holl ddogfennau statudol gael eu hadolygu a'u ffeilio'n gywir yn brydlon.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod eu staff yn gymwys i gyflawni eu swyddogaethau. Mae cymorth gweinyddol wedi ei hyfforddi'n dda ar wardiau yn cyfrannu'n sylweddol at sicrhau bod yr holl ddogfennau statudol yn cael eu hadolygu a'u ffeilio'n gywir a bod amserlenni statudol o dan y Ddeddf yn cael eu bodloni, mewn cydweithrediad â Rheolwyr Deddf Iechyd Meddwl.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu hyfforddiant i'r staff ar weinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl.***

---

<sup>4</sup> Adran 2 - Yn darparu i rywun gael ei gadw yn yr ysbyty ar gyfer asesiad a thriniaeth o'i anhwylder iechyd meddwl.

<sup>5</sup> Mae gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy wedi eu hyfforddi i weithredu elfennau'r Ddeddf mewn cydweithrediad ag ymarferwyr meddygol. Maent yn cyflawni swyddogaeth ganolog yn y gwaith o asesu a phenderfynu a oes sail i gadw pobl ag anhwylderau meddwl sy'n bodloni'r meini prawf statudol.

<sup>6</sup> Meddyg sydd wedi ei hyfforddi ac wedi cymhwysu yn y defnydd o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, seiciatrydd fel rheol.

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan Dŷ Llidiard gymorth gweinyddol digonol i sicrhau bod dogfennau statudol yn cael eu ffeilio'n briodol.***

Roedd gan y staff fynediad at God Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 2016 (y Cod); fodd bynnag, roedd hwn ar gael yn Saesneg yn unig, ac nid yn y Gymraeg.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod copïau digonol o'r Cod yn y Saesneg a'r Gymraeg fel y gall staff, cleifion a pherthnasau adolygu copi yn ôl y gofyn.***

### **Cynllunio a darparu gofal - Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010**

Adolygwyd tair set o ddogfennau Cynllun Gofal a Thriniaeth gennym. Gwnaed yr arsylwadau cadarnhaol canlynol:

- Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn gyflawn ac roedd yn ymddangos ei bod yn cael eu cadw'n gyfredol
- Roedd asesiadau iechyd corfforol yn cael eu cynnal wrth dderbyn
- Roedd asesiadau risg yn nodi'r risgiau a nodwyd a sut i'w lliniaru a'u rheoli
- Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn nodi cydgysylltwyr gofal y cleifion.

Fodd bynnag, nid oedd cofnod o anghenion na ddiwallwyd cleifion unigol yn eu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth. Byddai hyn yn caniatáu i'r cydgysylltydd gofal yn Nhŷ Llidiard adolygu'r ddarpariaeth o ofal i adlewyrchu unrhyw newidiadau gofynnol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod anghenion na ddiwallwyd y claf yn cael eu cofnodi yn ei Gynllun Gofal a Thriniaeth.***

Wrth dderbyn, byddai Cynllun Gofal a Thriniaeth newydd yn cael ei lunio yn hytrach na diweddarau Cynllun Gofal a Thriniaeth cymunedol y claf. Dywedodd y staff bod hyn yn aml gan nad oeddent yn derbyn y Cynllun Gofal a Thriniaeth cymunedol yn brydlon. Gallai hyn arwain at ddiffyg parhad o ran cynllunio gofal wrth lunio cynlluniau heb wybodaeth berthnasol. Dylai'r bwrdd iechyd gysylltu â'r timau cymunedol ar draws y byrddau iechyd priodol i fynd

i'r afael â'r anawsterau o ran derbyn Cynlluniau Gofal a Thriniaeth cymunedol yn brydlon.

## **Gofal diogel**

*Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch*

*Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu hadnabod, eu monitro a lle y bo'n bosibl, yn cael eu lleihau neu eu hatal.*

Mae Tŷ Llidiard yn ysbyty CAMHS a adeiladwyd yn bwrpasol. Mae'r dyluniad a'r cynllun yn cynnig amgylchedd diogel gyda gosodiadau, ffitiadau a dodrefn priodol er mwyn helpu i gynnal diogelwch y cleifion.

Fodd bynnag, roeddem yn bryderus am nifer o feysydd o ran cynnal amgylchedd diogel i ofalu am gleifion. Aethom ar daith o gwmpas yr amgylchedd yn ystod ein noson gyntaf a chanfuwyd pen a oedd wedi cael ei gadael yn y neuadd chwaraeon. Roeddem yn pryderu pe bai'r eitem hwn yn cael ei ganfod gan glaf y gallai fod wedi'i ddefnyddio i hunan-niweidio neu fel arf. Rhoddwyd y pin ysgrifennu i'r nyrs a oedd gyda ni.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw gwrthrychau y gellir eu defnyddio i niweidio yn cael eu gadael mewn manau i gleifion.***

Fel y nodwyd eisoes, mae'r ysbyty wedi ei gomisiynu ar gyfer 15 o gleifion ac roedd 18 o gleifion yn derbyn gofal yn Nhŷ Llidiard yn ystod ein harolygiad. Roedd claf arall yn aros i gael ei drosglwyddo i ysbyty arall ar noson gyntaf ein harolygiad, felly roedd 19 o gleifion yn bresennol ar y noson gyntaf.

Roedd staff ychwanegol yn Nhŷ Llidiard i adlewyrchu'r niferoedd staff ychwanegol. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos o'n harsylwadau bod gan aelod o staff asiantaeth wybodaeth gyfyngedig am y ward a'i chynllun. Pan y'i cyfeiriwyd gan y nyrs staff i fynd â rhywbeth i ran arall o'r ward roedd angen cyfarwyddiadau manwl ar yr aelod o staff er mwyn gwybod lle i fynd. Gallai hyn fod wedi achosi oedi critigol yn ystod sefyllfa frys.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***



***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ymsefydlu'r holl staff cronfa ac asiantaeth sy'n gweithio yn Nhŷ Llidiard i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r amgylchedd a gweithrediad y ward o ddydd i ddydd.***

Oherwydd lefel y gweithgarwch ar noson gyntaf ein harolygiad, hysbyswyd y nyrs gyfrifol gennym i ddefnyddio eu trefniadau ar-alwad i hysbysu'r uwch reolwyr ein bod yn bresennol ynghyd â'r sefyllfa gyfredol ar y ward. Fodd bynnag, er gwaethaf sicrwydd gan y staff eu bod wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'u rheolwr ar-alwad trwy gydol y dydd, cymerodd tua 30 munud i gysylltu â'r rheolwr ar-alwad y noson honno. Mae hyn yn oedi sylweddol ar gyfer trefniadau ar-alwad. Daeth uwch aelod o staff Tŷ Llidiard i'r ysbyty y noson honno a roddodd gymorth a chynngor pellach i'r staff.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff ar-alwad ar gael i staff ward yn ôl y gofyn.***

Roeddem yn pryderu bod anghysondeb yn ystod ein harolygiad ynghylch lleoliad y torwyr rhwymynnau; dywedodd rhai aelodau o staff eu bod yn y clinig ar Enfys a dywedodd eraill eu bod yn swyddfa ward Enfys. Cymerodd tua 10 munud i'r staff ddod o hyd i'r torwyr rhwymynnau; gallai hyn wedi bod yn oedi critigol mewn sefyllfa frys. Yn ystod yr arolygiad, trefnodd rheolwr y ward i dorwyr rhwymynnau gael eu didoli ar y ddwy ward. Gosododd gweithwyr cynnal a chadw lleoliad ar gyfer torwyr rhwymynnau ar y ddwy ward a roddodd sicrwydd i ni y byddent ar gael i'r staff yn ôl y gofyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn gwybod ble mae'r torwyr rhwymynnau wedi eu lleoli yn Nhŷ Llidiard.***

Roedd cofnodion arsylwi wedi eu cwblhau'n wael. Roedd cofnodion â gwybodaeth ar goll ac felly ni allem fod yn sicr bod yr arsylwadau gofynnol wedi cael eu cwblhau gan y staff. Gwelsom hefyd fod cofnod arsylwi wedi cael ei gwblhau ar gyfer un claf ac yna ei groesi allan. Fe'n hysbyswyd bod y claf hwn wedi bod allan ar seibiant gydag aelodau o'i deulu ac roedd y cofnodion yn y cofnod arsylwi ar gyfer claf arall â'r un enw cyntaf. Mae hwn yn wall arwyddocaol gan yr aelodau staff a gwblhaodd y cofnod arsylwi.

Mae'r cofnodion arsylwi yn cofnodi dim ond enw cyntaf yr aelod o staff sy'n gyfrifol am gwblhau'r arsylwi. Mae'n rhaid cynnwys enw llawn yr aelod o staff.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau cofnodion arsylwi cleifion yn ôl y gofyn.***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod enw llawn yr aelod o staff sy'n gyfrifol am gwblhau cofnodion arsylwi cleifion yn cael ei gofnodi ar y ffurflen gysylltiedig.***

Roedd gwaith cadw cofnodion gwael o ran y canlynol hefyd; y Ddeddf Iechyd Meddwl, asesiadau risg, rhoi meddyginiaeth ac offer clinigol a oedd yn effeithio ar ddiogelwch cleifion. Trafodir y rhain yn fwy manwl yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

#### *Safon 2.5 Maethiad a hydradiad*

*Mae pobl yn cael eu helpu i ddiwallu eu hanghenion o ran maethiad a hydradiad, er mwyn cael yr adferiad gorau posibl ar ôl afiechyd neu anaf.*

Mae cleifion yn Nhŷ Llidiard yn derbyn eu pryddau bwyd yn yr ysbyty. Mae gan yr ysbyty fwydlen gylchol tair wythnos ac roedd pum dewis ar gyfer cinio a phryddau nos. Roedd gan y cleifion fynediad at fyrbryddau a lluniaeth hefyd.

Dywedodd y staff cadw tŷ eu bod yn ceisio bod yn hyblyg i ddiwallu anghenion a bodloni dymuniadau'r cleifion. Gwelsom gofnod o'r hyn y mae'r cleifion yn ei hoffi ac nad ydynt yn ei hoffi ac roedd stoc ychwanegol ar gael yn storffeydd y gegin i gynnig dewisiadau yn hytrach na dewisiadau'r fwydlen.

Roedd cyfleusterau ystafell fwyta priodol ar y ddwy ward gydag ystafell fwyta fwy ar Ward Enfys ac ystafell olau fach ar Seren.

Roedd peiriannau dŵr a oedd yn gweithio yn y ddwy ystafell fwyta, ond, fel y nodwyd eisoes, roedd peiriant dŵr wedi torri a oedd yn aros i gael ei gasglu ar Ward Enfys.

Fe'n hysbyswyd bod yr holl gleifion yn bwyta eu bwyd yn ystafell fwyta Enfys y rhan fwyaf o'r amser fel eu bod i gyd yn bwyta gyda'i gilydd. Fodd bynnag, os oedd claf yn sâl gallai fwyta ei fwyd yn ystafell fwyta Seren i gael preifatrwydd ac i beidio â tharfu ar gleifion eraill.

Arsylwyd un amser bwyd gennym a gwelsom fod y staff a'r cleifion yn bwyta gyda'i gilydd, a oedd yn cynnig profiad ffafriol a therapiwtig.

Byddai angen bwydo rhai cleifion gyda thiwb nasogastrig (NG) ar adegau. Adolygwyd y stoc offer a'r cyflenwadau ar gyfer bwydo NG gennym ac roedd offer digonol ar gyfer darparu'r bwyd NG gofynnol ar adeg yr arolygiad. Dywedodd y staff bod stociau'n cael eu monitro a'u harchebu yn rheolaidd.

Roedd wyth o aelodau staff wedi eu hyfforddi mewn bwydo NG ac fe'n hysbyswyd bod hyn yn ddigonol i ddiwallu'r anghenion cyfredol. Fodd bynnag, roedd y staff yn teimlo y byddai'n fwy buddiol pe bai rhagor o staff yn cael eu hyfforddi. Cododd y staff eu pryderon am gynnal eu gallu o ran bwydo NG hefyd, gan y byddai cyfnodau pan na fyddai angen y math hwn o fwyta â chymorth ar unrhyw gleifion ac felly ni fyddai'r staff yn darparu'r weithdrefn arbenigol hon yn barhaus. Er mwyn datrys hyn, fe'n hysbyswyd bod yr ysbyty wedi archebu dymi arbenigol ar gyfer ymarfer i weithdrefn fwydo NG i gynnal y sgîl. Ni ellid darparu unrhyw ddyddiad o ran pryd y byddai'r dymi yn cael ei ddarparu ar adeg yr arolygiad.

Fe'n hysbyswyd y byddai bwydo NG yn digwydd yn ystafell glinig y ward lle derbyniwyd y claf. Fodd bynnag, pan drafodwyd gyda'r staff ble y byddai claf yn cael ei fwydo ar sail NG os nad oedd yn cydymffurfio, cawsom wahanol safbwyntiau. Dywedodd rhai staff y gallent gael eu bwydo ar sail NG yn eu hystafelloedd gwely. Fodd bynnag, dywedodd un o'r rheolwyr ward y dylid cyflawni unrhyw fwydo NG a allai fod angen ataliaeth yn y man gofal uchel ar Ward Seren lle mae cyfleusterau diogel addas ar gael.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff â hyfforddiant digonol sydd â phrofiad o fwydo nasogastrig (NG) yn Nhŷ Llidiard.***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau addas ar waith i'r staff yn Nhŷ Llidiard gynnal eu sgiliau bwydo NG.***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cywir o ran bwydo NG i gleifion nad ydynt yn cydymffurfio.***

### ***Safon 2.6 Rheoli meddyginiaethau***

***Mae pobl yn cael meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni, a hynny ar yr amser cywir.***

Roedd meddyginiaeth wedi ei storio'n ddiogel yn yr ystafelloedd clinig. Roedd cypyrddau, oergelloedd a throlïau meddyginiaeth yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Roedd y gwaith o gwblhau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth yn nau glinig Tŷ Llidiard o safon wael. Roedd bylchau o ran cofnodi pa un a oedd meddyginiaeth bresgripsiwn wedi cael ei rhoi ai peidio. Nid oedd hyn wedi ei gyfyngu i gofnod un claf neu gyfnod amser penodol, ond roedd yn digwydd yn rheolaidd. Pan na roddir meddyginiaeth, mae'n rhaid i nyrsys cofrestredig gofnodi ar y Siart Rhoi Meddyginiaeth pam na roddwyd y feddyginiaeth gan ddefnyddio'r codau safonol. Hefyd, nid yw Siartiau Rhoi Meddyginiaeth bob amser yn cynnwys statws cyfreithiol y cleifion o ran y Ddeddf Iechyd Meddwl.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (Siartiau Rhoi Meddyginiaeth).***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod statws cyfreithiol y cleifion yn cael ei ysgrifennu'n eglur ar y Siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth***

Adolygwyd sampl o feddyginiaeth yn yr ystafelloedd cling ar y ddwy ward; roedd meddyginiaeth a oedd heibio ei dyddiad terfyn yn y stoc ar Ward Enfys. Cafodd y nyrs a oedd gyda ni wared ar y feddyginiaeth yn briodol ar unwaith.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliad rheolaidd o feddyginiaeth i atal stoc sydd wedi mynd heibio ei ddyddiad terfyn rhag cael ei gadw yn yr ystafelloedd clinig.***

Nid oedd y polisi rhoi cyffuriau ar gael i staff yn yr un o'r ddwy ystafell glinig. Rhoddwyd sylw i hyn yn ystod yr arolygiad. Canfuwyd polisi cyffuriau Caerdydd a'r Fro a oedd wedi mynd heibio ei ddyddiad terfyn o 2002 yn un o'r clinigau hefyd, a chafodd y staff wared arno ar unwaith.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl bolisiau (meddyginiaeth) perthnasol yn gyfredol ac ar gael i'r staff ym mhob ystafell glinig.***

Safon 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

*Mae'r gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu'n wynebu risg ar unrhyw adeg.*

Adolygwyd cyfraddau cwblhau hyfforddiant y staff ar Amddiffyn Plant a gwelsom fod 41 o 52 wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol. Roedd yn amlwg yn ystod trafodaethau gydag aelodau staff eu bod yn wybodus ac yn gymwys o ran gweithdrefnau diogelu plant.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant Amddiffyn Plant perthnasol.***

*Safon 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol*

*Mae gwasanaethau iechyd yn sicrhau eu bod yn caffael, yn defnyddio ac yn gwaredu dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.*

Adolygwyd yr offer brys ym mhob un o'r clinigau yn Nhŷ Lliardiard. Roedd y tag diogelwch ar goll o'r Bag Cydio Brys ar Ward Enfys, er i hyn gael ei nodi yn yr archwiliad rheolaidd ar 2 Mawrth 2017.

Roedd hen offer ar y droli ddadebru ar Ward Enfys.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod systemau archwilio priodol ar waith ac wedi eu cwblhau i nodi a disodli unrhyw offer sydd ar goll neu'n hen.***

*Safon 3.5: Cadw cofnodion*

*Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar safonau clinigol.*

Roedd tystiolaeth o waith cadw cofnodion gwael mewn nifer o feysydd yn Nhŷ Llidiard ar draws gwahanol ddisgyblaethau, gan gynnwys:

- Cofnodion cleifion wedi eu trefnu'n wael
- Copïau anghyflawn o ddogfennau Deddf Iechyd Meddwl
- Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth wedi eu cwblhau'n wael
- Cofnodion arsylwi cleifion anghyflawn ac anghywir

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sefydlu systemau priodol i sicrhau bod y staff yn cwblhau ac yn cynnal cofnodion i safon broffesiynol uchel.***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau cymorth gweinyddol ar gyfer Tŷ Llidiard.***

## ***Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth***

**Roedd gweithlu brwdfrydig ac ymroddedig yn Nhŷ Llidiard a oedd yn gweithio'n gydlynol fel tîm amlddisgyblaeth. Fodd bynnag, roedd swyddi gwag a salwch yn effeithio ar barhad y gofal.**

**Roedd y staff yn cael anhawster yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ac ychwanegol. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y staff wedi derbyn goruchwyliaeth glinigol grŵp a goruchwyliaeth reoli unigol.**

**Mae angen i Dŷ Llidiard ddatblygu systemau archwilio a llywodraethu cadarn i ddarparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar y claf. Nid oedd y rhain yn bresennol ar adeg ein harolygiad a oedd yn cael effaith fawr ar y ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol.**

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

*Y Safonau Iechyd a Gofal, Rhan 2 - Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd*

*Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn modd cynaliadwy.*

Roedd yn gadarnhaol bod staff Tŷ Llidiard yn croesawu ein safbwyntiau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion trwy gydol yr arolygiad.

Siaradodd staff y wardiau yn gadarnhaol am arweinyddiaeth a chymorth y rheolwyr ward, a dywedasant y byddent yn darparu cymorth uniongyrchol ar y ward yn achlysurol, i lenwi'r bylchau yn y rota shifftiau. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn y rotas staff. Fodd bynnag, roedd hyn yn effeithio ar faint o amser yr oedd rheolwyr ward yn ei gael i gyflawni eu dyletswyddau rheoli yn y pen draw.

Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw sylwadau cadarnhaol ar waith y tîm amlddisgyblaeth. Dywedodd y staff bod y tîm amlddisgyblaeth yn gweithio mewn ffordd broffesiynol a chydweithredol a bod safbwyntiau unigol yn cael eu ceisio a'u gwerthfawrogi.

Roedd gan Dŷ Llidiard oruchwyliaeth grŵp clinigol a oedd yn caniatáu i aelodau staff fyfyrio ar y gofal a ddarparwyd. Roedd y staff yn gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y broses.

Roedd y staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd gan y rheolwyr. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnod cyffredinol ar waith i fonitro ei gyflawniad a'i reoleidd-dra. Roedd cofnodion wedi cael eu cynnal yn ffeiliau'r aelodau staff unigol. Awgrymwyd gennym y dylid cadw cofnod o oruchwyliaeth rheolwyr ar gyfer staff yn Nhŷ Llidiard fel y gellir sicrhau rheolwyr ward yn gyflym bod goruchwyliaeth rheolwyr yn digwydd.

Roedd yn amlwg bod y gwasanaeth o dan bwysau sylweddol i ddarparu gofal i fwy o gleifion na'r nifer yr oedd wedi ei gomisiynu ar eu cyfer. Roedd hyn yn effeithio ar allu'r staff i ddarparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar y claf yn gyson.

Mae nifer y meysydd i'w gwella yn adran "Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol" yr adroddiad hwn yn amlygu'r angen am welliannau mawr o ran archwilio a llywodraethu yn Nhŷ Llidiard. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol clywed bod prosesau ar waith i gadarnhau a gweithredu polisïau i gefnogi'r staff yn eu gwaith.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau archwilio a llywodraethu cadarn ar waith yn Nhŷ Llidiard i sicrhau'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol.***

### **Staff ac adnoddau**

#### *Safon 7.1 Y Gweithlu*

*Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff â'r wybodaeth a sgiliau cywir ar gael ar yr amser cywir i ddiwallu'r angen.*

Fe'n hysbyswyd bod nifer o staff profiadol wedi gadael i ddechrau swyddi newydd i ddatblygu eu gyrfaoedd. Roedd chwe swydd wag ar y wardiau ar adeg ein harolygiad, tair nyrs gofrestredig a 2 weithiwr cymorth gofal iechyd. Roedd swydd therapydd galwedigaethol wag hefyd.

Bu lefelau uchel o salwch ymhlith y staff yn ystod mis Ionawr 2017 (oherwydd anafiadau'n gysylltiedig â'r gwaith), er bod hyn wedi gwella erbyn adeg ein



harolygiad. Fodd bynnag, oherwydd y swyddi gwag a'r lefelau salwch, roedd dibyniaeth ar staff cronfa ac asiantaeth i fodloni'r gofynion staffio. Er bod ymdrech i gael gafaél ar weithwyr cronfa ac asiantaeth rheolaidd, nid oedd hyn bob amser yn bosibl. Felly roedd gweithlu anghyson yn Nhŷ Llidiard sy'n effeithio ar allu'r gwasanaeth i ddarparu parhad gofal ac ansawdd gwaith cadw cofnodion.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi sylw i recriwtio i'r swyddi gwag yn Nhŷ Llidiard***

Oherwydd y pwysau o ddarparu staff ar gyfer y wardiau, fe'n hysbyswyd bod y staff yn cael anhawster i gwblhau hyfforddiant gorfodol ac ychwanegol.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod detholiad o staff yn Nhŷ Llidiard yn ystod ein harolygiad i dderbyn hyfforddiant Ymyriad Corfforol Cyfyngol. Gwelsom hefyd fod cyfraddau cydymffurfio uchel ar gyfer amddiffyn plant, hylendid bwyd, codi a chario a hyfforddiant tân. Fodd bynnag, roedd diffygion arwyddocaol o ran rheoli heintiau, y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant diweddarau cysylltiedig.***

Gwelsom fod rhai aelodau staff wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol er mwyn helpu i gynorthwyo a gofalu am gleifion. Roedd y cyrsiau hyn yn cynnwys: hyfforddiant Maudsley ar gyfer Anhwylderau Bwyta, Cymorth gyda Phrydau Bwyd, bwydo NG, Lleihau Achosion o Hunanladdiad a Hunan-niweidio a hyfforddiant Caethiwed i'r Rhyngwyd. Fodd bynnag, roedd y cyrsiau hyn wedi cael eu cwblhau cyn 2016 a chadarnhaodd y staff mai prin yw'r cyfle y maent wedi ei gael yn ddiweddar i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi tebyg.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gynorthwyo'r staff i gwblhau hyfforddiant ychwanegol a fyddai'n helpu'r staff i gynorthwyo a gofalu am gleifion yn Nhŷ Llidiard.***

## 5. Y camau nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Nhŷ Llidiard yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r camau a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r bwrdd iechyd yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.


Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r Safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd a ddarperir i gleifion.

Pan fo'n briodol, mae arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

### Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal 2015



Mae arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl yn ddirybudd ac rydym yn arolygu ac yn adrodd yn erbyn tair thema:

- **Ansawdd profiad y claf:**  
Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- **Cyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol:**  
Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

- **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth:**  
Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion a chyfweliadau gyda staff
- Arsylwadau cyffredinol ar amgylchedd y gofal a'r arferion gofal
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr yn y gyfarwyddiaeth
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau penodol sy'n sail i ofal cleifion
- Ystyried prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd.

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach yn gysylltiedig ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gofal iechyd a ddarperir a'r ffordd y mae'r ddarpariaeth o wasanaethau'n sicrhau urddas a gofal hanfodol.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r gwasanaeth at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn trwy lythyr sicrwydd ar unwaith. Bydd y canfyddiadau hyn (pan fyddant yn berthnasol) yn cael eu nodi yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

## Atodiad A

**Gwasanaeth Iechyd Meddwl: Cynllun Gwella**

**Gwasanaeth: Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Tŷ Llidiard**

**Dyddiad yr Arolygiad: 26 – 28 Mawrth 2017**

| Rhif y Dudalen                | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella   | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth  | Swyddog Cyfrifol  | Amserlen           |
|-------------------------------|---|-------|--|---|--------------------|
| <b>Ansawdd profiad y claf</b> |   |       |  |   |                    |
| 6                             | Rhaid i'r bwrdd iechyd lanhau canopi'r fynedfa wydr yn Nhŷ Llidiard.  | 4.1   | Y gwaith wedi'i gofnodi gan yr Adran Ystadau ar 5/4/17 a'r Rheolwr Cadw Tŷ. Aros am ddyddiad ar gyfer y gwaith. Nodiadau atgoffa'n cael eu hanfon yn rheolaidd.  | Sam Stroud a Nigel Llewellyn (Cadw Tŷ, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg) | 31 Gorffennaf 2017 |
| 6                             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ffenestri Tŷ Llidiard yn cael eu glanhau'n rheolaidd, gan gynnwys y tu ôl i'r sgriniau rhwyll. | 4.1   | Y gwaith wedi'i gofnodi gydag Ystadau ar 5/4/17 a'r dull o lanhau ffenestri arbennig wedi'i sefydlu. Gwybodaeth wedi'i rhannu â'r Rheolwr Cadw Tŷ sy'n gyfrifol am y contract glanhau ffenestri. Aros am | Sam Stroud a Nigel Llewellyn (Cadw Tŷ, Bwrdd Iechyd Prifysgol)                        | 31 Gorffennaf 2017 |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella   | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth   | Swyddog Cyfrifol                               | Amserlen   |
|----------------|---|-------|---|--|--|
|                |   |       | ddyddiad ar gyfer y gwaith. Nodiadau atgoffa wedi'u hanfon. Cyfarfodydd bob yn ail mis wedi'u trefnu gyda'r Rheolwr Cadw Tŷ.  | Abertawe Bro Morgannwg)                        |  |
| 6              | Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal archwiliadau cynnal a chadw rheolaidd o ran yr amgylchedd i ganfod ac unioni'r difrod i'r amgylchedd yn Nhŷ Lliardiard. | 4.1   | Rhestrau gwirio dyddiol wedi'u cyflwyno ar gyfer staff y ward. Llawer o broblemau wedi'u hadrodd i'r adran Ystadau a Chadw Tŷ. Cynnal adolygiad o ran cynnydd bob dydd. Mae'r holl staff wedi cael eu hatgoffa i adrodd problemau pan gânt eu canfod. Mae'r Rheolwr Ardal a'r Rheolwr Ward wedi cynnal archwiliadau o ran yr amgylchedd, a byddant yn parhau i wneud hyn bob mis. | Staff nyrsio, rheolwyr wardiau a Rheolwr Ardal | Adborth wedi'i roi i'r staff ac mae dull adnewyddol yn cael ei weithredu'n barhaus erbyn hyn ac yn cael ei fonitro'n rheolaidd |
| 6              | Rhaid i'r bwrdd iechyd atgyweirio'r difrod i lawr y coridor ar Ward Enfys.  | 4.1   | Mae'r difrod wedi cael ei adrodd i'r adran Ystadau, ac maent wedi gwneud gwaith atgyweirio dros dro. Rydym wedi gofyn i'r adran Ystadau roi dyfynbris am y gwaith atgyweirio. Aros am gostiadau.  | Rheolwr Ardal a Rheolwr Ystadau                | 31 Gorffennaf 2017   |
| 6              | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gallu gorchuddio byrddau  | 4.1   | Cais wedi'i wneud i'r gweinyddwr sy'n gyfrifol am archebu stoc.   | Rheolwr Ardal a'r                              | 31 Gorffennaf  |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella  | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth   | Swyddog Cyfrifol             | Amserlen  |
|----------------|--|-------|---|------------------------------|---|
|                | cipolwg ar statws pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.  |       | Syrfêwr wedi'i wahodd i roi dyfynbris ar 11/5/17, aros am ddiweddariad, nodyn atgoffa wedi'i anfon ar 9/6/17. Ar ôl cael dyfynbris, y gweinyddwr i nodi hynny yn y system gaffael i'w awdurdodi.  | gweinyddwr                   | 2017  |
| 7              | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud yn rheolaidd yn yr ardd.                      | 4.1   | Cais wedi'i wneud i'r adran Ystadau i'r gerddi gael eu tacluso, a gwnaed hyn ar 21/4/17. Cais wedi'i wneud i'r Rheolwr Ystadau am gadarnhad ynglŷn â pha mor aml y mae'r contract yn nodi y dylid gwneud gwaith yn yr ardd. Aros am ymateb. Cyfarfodydd bob yn ail mis wedi'u trefnu gyda'r rheolwyr ystadau. | Sam Stroud a'r Adran Ystadau | Rheolwr Ardal wedi cael adborth ac mae dull newydd yn cael ei weithredu'n barhaus erbyn hyn ac yn cael ei fonitro'n rheolaidd |
| 7              | Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ystafell sinema i sicrhau ei bod yn weithredol ac yn ddiogel i gleifion ei defnyddio. | 4.1   | Yr ystafell wedi'i gwneud yn ddiogel trwy newid y clo a'r ffenestr weld. Mae modd defnyddio'r ystafell.   | Sam Stroud                   | Cwblhawyd Mai 2017  |
| 7              | Rhaid i'r bwrdd iechyd atgyweirio lliain y bwrdd pŵl.  | 4.1   | Cais wedi'i wneud i'r gweinyddwr sy'n gyfrifol am gaffael am ddyfynbris ar gyfer y gwaith   | Sam Stroud a Darren Rees     | 31 Gorffennaf 2017  |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella   | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth  | Swyddog Cyfrifol                | Amserlen   |
|----------------|---|-------|--|---------------------------------|--|
|                |   |       | atgyweirio. Ar ôl cael dyfynbris, ei gyflwyno i'r tîm uwch-reolwyr i'w gymeradwyo.   |                                 |  |
| 8              | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod eitemau wedi difrodi'n cael eu symud o'r ysbyty.                                 | 4.1   | Wedi'i gynnwys yn yr archwiliadau i'w cynnal yn ddyddiol o ran yr amgylchedd, ac mae'r staff wedi cael eu hatgoffa o'r weithdrefn. | Rheolwyr wardiau                | Cwblhawyd Mai 2017   |
| 8              | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y peiriannau cyflenwi sebon a thywelion papur wedi torri yn cael eu hatgyweirio. | 4.1   | Wedi'i gofnodi gan yr adran Ystadau ar 5/4/17.   | Sam Stroud a'r Adran Ystadau    | Wedi'i wneud yn rhannol yn ystod archwiliad a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2017. Galwad ychwanegol wedi'i gofnodi ar 13 Mehefin 2017 |
| 10             | Rhaid i'r bwrdd iechyd ymgysylltu â phartneriaid perthnasol er mwyn cynnal adolygiad o ran y ddarpariaeth           | 5.1   | Gellir mesur hyn yn ôl nifer y cleifion a atgyfeiriwyd y tu allan i'r ardal oherwydd nad oedd gwelyau ar                           | Chrystelle Walters a Dr Darwish | Yr Arweinydd Clinigol a'r  |



| Rhif y Dudalen                             | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella  | Safon                             | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth  | Swyddog Cyfrifol                        | Amserlen  |
|--|--|-----------------------------------|--|---|---|
|  | gwasanaethau iechyd meddwl a'r glasoed yn ne Cymru, er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti i ddarparu gofal amserol yn ei wasanaeth lleol.           |                                   | gael. Anaml iawn y digwyddodd hyn. Digwyddodd unwaith yn y tair blynedd diwethaf oherwydd blocio gwelyau gan glaf nad oedd yn fodloni meini prawf Tŷ Lliardiard.   |   | Uwch Nyrs wedi cael adborth ac mae dull newydd yn cael ei weithredu'n barhaus gyda phartneriaid |
| <b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b> |  |                                   |  |   |   |
| 12   | Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu hyfforddiant mewn gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer y staff.   | Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl | Gwnaed cais i Weinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl ddarparu'r hyfforddiant perthnasol. Trefnwyd cyfarfod ar 24 Mai 2016.<br><br>Yn ystod y cyfarfod, cytunwyd y byddai Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn darparu peth hyfforddiant. Dyddiadau i'w cadarnhau gan y gweinyddwr. | Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl       | 31 Gorffennaf 2017  |
| 13   | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod Tŷ Lliardiard yn cael digon o gymorth gweinyddol i sicrhau bod dogfennau statudol yn cael eu ffeilio'n briodol. | Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl | Rheolwr Ardaloedd i nodi a oes digon o amser gweinyddol i ddarparu'r cymorth hwn. Mae capasiti o fewn y tîm gweinyddu  | Sam Stroud a Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd | 31 Gorffennaf 2017  |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella  | Safon                                    | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth   | Swyddog Cyfrifol                | Amserlen              |
|----------------|--|--|---|---------------------------------|-----------------------|
|                |  |  | presennol. Ar 24/5/16, trafodwyd â Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl ble bydd hi'n darparu hyfforddiant i'r staff gweinyddol. Trafodwyd hefyd defnyddio ffeiliau ar wahân ar gyfer dogfennau statudol. Aros am ffeiliau sampl gan Weinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl. Nodyn atgoffa wedi'i anfon ar 9/6/17. | Meddwl                          |                       |
| 13             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o gopïau o'r Cod ar gael yn Gymraeg a Saesneg er mwyn i staff, cleifion a pherthnasau allu adolygu copi pan fo angen. | Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl        | Mae pum copi clwr caled ar gael yn yr uned bellach, dau ohonynt yn Gymraeg. Mae copi o'r fersiwn Gymraeg a Saesneg yn y ddwy ward, a chedwir un yn Swyddfa'r Rheolwr Wardiau. Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn y ffolder Deddf Iechyd Meddwl ar yriant Q.   | Rebecca James                   | Cwblhawyd Ebrill 2017 |
| 13             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod anghenion cleifion nad ydynt yn cael eu diwallu'n cael eu cofnodi yn eu cynllun gofal a thriniaeth.                         | Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 | Trafodir anghenion cleifion nad ydynt yn cael eu diwallu ar adeg eu derbyn ac yn ystod rownd ward. Caiff anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu eu nodi mewn cynlluniau   | Rebecca James / Sharon Howatson |                       |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella   | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth   | Swyddog Cyfrifol                       | Amserlen  |
|----------------|---|-------|---|--|---|
|                |   |       | <p>gofal a thriniaeth.</p> <p>Mae angen nodi anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu'n glir yn y cynlluniau gofal a thriniaeth ar adeg eu derbyn.</p> <p>Mae llawer iawn o gleifion yn cael eu derbyn heb gynllun gofal a thriniaeth. Mae staff cleifion mewnol wedyn yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb o gwblhau'r cynlluniau gofal a thriniaeth, ond mae'n anodd cofnodi'r anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu sy'n amlwg yn y gymuned.</p> <p>Uwch Nyrs i siarad â'r tîm uwch-reolwyr ynglŷn â gweithdrefn yn ymwneud â hyn.</p> | Chrystelle Walters                     | 30 Mehefin 2017                                   |
| 14             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw gwrthrychau y gellir eu defnyddio i niweidio yn cael eu gadael mewn ardaloedd i gleifion. | 2.1   | <p>System ddyddiol wedi'i rhoi ar waith i sicrhau bod Uwch Nyrsys Staff yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r amgylchedd. Bydd hyn yn cael ei drosglwyddo yn ystod y cyfnod sefydlu.</p> <p>Rheolwr y Ward i wneud archwiliad misol o gwmpas y ward. Nod hyn</p>   | Uwch Nyrsys Staff<br><br>Rebecca James | Cwblhawyd Mai 2017<br><br>Cwblhawyd ac yn barhaus |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella  | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth  | Swyddog Cyfrifol  | Amserlen  |
|----------------|--|-------|--|---|---|
|                |  |       | <p>fydd ceisio mynd i'r afael ag unrhyw feysydd o risg. Bydd hyn yn cael ei drafod yn ystod cyfarfodydd niysys.</p> <p>Bydd angen pwysu a mesur symud gwrthrychau ag anghenion a gofynion cleifion ar gyfer byw bywyd normal. Mae gweithdrefn glir yn nodi'r hyn y gellir mynd ag ef i'r uned a'r hyn na ellir mynd ag ef i'r uned.</p>  | Sharon Howatson   | Mae'r staff wedi derbyn adborth, a bydd hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd mewn perthynas â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt |
| 14             | Rhaid i'r bwrdd iechyd ymsefydlu pob aelod o'r staff cronfa ac asiantaeth sy'n gweithio yn Nhŷ Llidiard er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r amgylchedd, a'r gwaith o redeg y ward o ddydd i ddydd. | 2.1   | <p>Mae hyfforddiant sefydlu staff cronfa ac asiantaeth ar waith. Mae Rheolwr y Ward wrthi'n diwygio'r pecynnau sefydlu ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys staff cronfa ac asiantaeth, ar hyn o bryd, ac fe'u cedwir yn y ward.</p> <p>Mae niysys B6 yn deall eu swyddogaethau o ran sicrhau bod hyfforddiant sefydlu ar gyfer staff</p> | <p>Rebecca James / Sharon Howatson</p> <p>Rebecca James / Sharon Howatson</p> | <p>Cwblhawyd Mai 2017</p> <p>Cwblhawyd Mai 2017</p>   |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella  | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth  | Swyddog Cyfrifol | Amserlen   |
|----------------|--|-------|--|------------------|--|
|                |  |       | <p>cronfa ac asiantaeth yn cael eu cynnal. Mae hyn yn rhan o'r hyfforddiant sefydlu a bydd newidiadau parhaus yn cael eu trosglwyddo trwy gyfarfodydd nyrsys a rheolaeth linell.</p> <p>Mae rheolwyr wardiau'n cynnal archwiliadau wythnosol o'r gwaith papur ar gyfer hyfforddiant sefydlu, a bydd hyn yn cael ei groesgyfeirio â'r staff nad ydynt ar ddyletswydd. Bydd unrhyw bryderon ynglŷn â hyfforddiant sefydlu'n derbyn sylw yn unol â hynny.</p> | Rheolwyr wardiau | Rheolwyr wardiau wedi cael adborth ac mae dull newydd yn cael ei weithredu'n barhaus erbyn hyn ac yn cael ei fonitro'n rheolaidd |
| 15             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff ar ddyletswydd ar gael i staff y ward pan fo angen. | 2.1   | Disgwylir i'r staff ar ddyletswydd fod ar gael i staff y ward wrth gyflawni'r ddyletswydd hon. Bydd adegau lle na fydd modd ateb galwad, a bydd angen gadael neges yn gofyn am alwad yn ôl, e.e. gallai aelod o staff ar ddyletswydd fod yn gyrru.   | Tîm Uwch-reolwyr | Cwblhawyd Mai 2017   |
| 15             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr  | 2.1   | Mae'r torwyr rhwymynnau wedi'u   | Rebecca          | Cwblhawyd  |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella  | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth   | Swyddog Cyfrifol  | Amserlen                            |
|----------------|--|-------|---|---|-------------------------------------|
|                | holl staff yn gwybod ble mae torwyr rhwymynnau'n cael eu cadw yn Nhŷ Lliardiard.                   |       | <p>gosod ar y wal yn y ddwy swyddfa nyrsio.</p> <p>Mae'r ddau yn anweladwy i bobl ifanc. Caiff yr holl staff nyrsio eu hysbysu ynglŷn â hyn yn ystod eu cyfnod sefydlu. Mae hyn wedi'i gyfleu i'r staff yn ystod cyfarfod nyrsys hefyd.</p>   | James / Sharon Howatson                                   | Mai 2017                            |
| 15             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cwblhau cofnodion arsylwi cleifion pan fo angen hynny. | 2.1   | <p>Mae cydlynwyr sifftiau'n gyfrifol am wneud/dirprwyo'r gwaith o gynnal arsylwadau priodol gan nyrsys a chwblhau gwaith papur (nyrs Band 5 neu 6 bob amser).</p> <p>Mae'r weithdrefn hon yn cael ei chynnwys yn ystod y broses sefydlu.</p> <p>Dylai diffyg cydymffurfiaeth gael ei reoli gan Reolwr y Ward. Dylai achosion parhaus o ddiffyg cydymffurfio gael eu huwchgyfeirio at yr Uwch Nyrs.</p> <p>Mae'n ofynnol i reolwyr wardiau gynnal archwiliadau wythnosol ar hap o gofnodion arsylwi, a rhoi sylw i unrhyw bryderon sydd gan y staff yn unol â hynny.</p> | Cydlynwyr sifftiau<br><br>Rebecca James / Sharon Howatson | Cwblhawyd Ebrill 2017 ac yn barhaus |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella   | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth   | Swyddog Cyfrifol                | Amserlen  |
|----------------|---|-------|---|---------------------------------|---|
| 16             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod enw llawn yr aelod o staff sy'n gyfrifol am gwblhau cofnodion arsylwi claf yn cael ei gofnodi ar y ffurflen gysylltiedig.      | 2.1   | <p>Rheolwyr wardiau i hysbysu'r holl staff o'r gofyniad hwn. Staff i gael gwybod trwy reolaeth linell a chyfarfodydd nyrsys.</p> <p>Dylai'r Polisi Arsylwi Cymru Gyfan, sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd ac sy'n aros am gymeradwyaeth y llywodraeth, gael ei roi i bob aelod o'r staff a dylent lofnodi i ddatgan eu bod wedi'i ddarllen.</p> <p>Mae'n ofynnol i reolwyr wardiau gynnal archwiliadau wythnosol ar hap o gofnodion arsylwi, a rhoi sylw i unrhyw bryderon sydd gan y staff yn unol â hynny.</p> | Rebecca James / Sharon Howatson | <p>Cwblhawyd Ebrill 2017</p> <p>Cyn 31 Gorffennaf 2017</p> <p>Cwblhawyd Ebrill 2017 ac yn barhaus</p> |
| 17             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff sydd wedi'u hyfforddi'n ddigonol ac sy'n ddigon profiadol mewn bwydo trwy diwb trwyn i'r stumog ar gael yn Nhŷ Llidiard. | 2.5   | <p>Nid oes nifer fawr o bobl ifanc sydd angen cael eu bwydo trwy diwb trwyn i'r stumog ar gael yn Nhŷ Llidiard ac, o'r herwydd, mae cynnal cymhwysedd yn anodd iawn.</p> <p>Mae meincnodi gyda darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl a'r glasod eraill tebyg wedi mynegi yr un anawsterau, ac nid yw llawer o unedau'n derbyn pobl ifanc gyda</p>  | Rebecca James / Sharon Howatson | Mae'r Uwch Nyrs a'r rheolwyr wardiau wedi derbyn adborth, a bydd hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd   |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth  | Swyddog Cyrifol | Amserlen |
|----------------|-----------------------------|-------|--|-----------------|----------|
|                |                             |       | <p>thiwbiau trwyn i'r stumog.</p> <p>Cyn hyn, nid oedd y bwrdd iechyd yn darparu hyfforddiant yn y maes hwn fel mater o drefn. Rydym bellach yn gwybod fod hyn yn cael ei gynnwys yn rhaglen nyrsio i raddedigion 2017. Mae nyrsys cyffredinol yn cael eu hyfforddi yn ystod eu hyfforddiant nyrsio. Mae'r gofynion cymhwysedd yn dangos bod angen i bob aelod o staff arsylwi ac yna ymarfer dan oruchwyliaeth ar dri achlysur i gael cymhwysedd.</p> <p>Yn y gorffennol, mae staff wedi derbyn hyfforddiant yn y modd hwn. Fodd bynnag, yn aml nid oes rhaid i'r staff sydd wedi cael hyfforddiant sefydlu ddilyn y weithdrefn hon yn rheolaidd, ac er eu bod wedi cael yr hyfforddiant, maent yn adrodd nad ydynt yn teimlo'n gymwys o ystyried y gwahaniaeth amser rhwng hyfforddiant ac ymarfer.</p> <p>Mae dymi wedi'i archebu i hyfforddi</p> |                 |          |



| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella  | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth  | Swyddog Cyfrifol                            | Amserlen                                    |
|----------------|--|-------|--|---|---|
|                |  |       | <p>staff mewn bwydo trwy diwb trwyn i'r stumog (wedi cyrraedd erbyn hyn) i hyrwyddo ymarfer rheolaidd. Bydd derbyn hyn yn cefnogi cynnal cymhwysedd staff hefyd.</p> <p>Gweler isod am ragor o fanylion am ddarpariaeth hyfforddiant.</p> <p>Os bydd angen tiwb trwyn i'r stumog ar glaf, a bod neb wedi'i hyfforddi i wneud hynny ar ddyletswydd, dylid cynnal asesiad risg ar gyfer y claf a dylid mynd gydag ef i'r ward bediatrig i gael ei archwilio os yw'n ddiogel gwneud hynny. Bydd rheolwyr wardiau'n monitro cydymffurfiaeth â chynlluniau gofal.</p> | Chrystelle Walters                          |   |
| 17             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau addas ar waith er mwyn i staff Tŷ Llidiard gadw eu sgiliau bwydo trwy diwb trwyn i'r stumog. | 2.5   | <p>Aros i ddymi gyrraedd er mwyn sicrhau bod staff yn parhau i fod yn gymwys i basio tiwb trwyn i'r stumog.</p> <p>Cwrdd â'r tîm uwch-reolwyr i drafod</p>   | <p>Sam Stroud</p> <p>Chrystelle Walters</p> | <p>Cwblhawyd Mai 2017</p> <p>30 Mehefin</p> |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella   | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth  | Swyddog Cyfrifol   | Amserlen                               |
|----------------|---|-------|--|--|--|
|                |   |       | <p>y trefniadau hyfforddi sydd ar waith ac i gael sicrwydd y bydd hyn yn ddigonol i sicrhau cymhwysedd staff.</p> <p>Rhoddir cyfle i nyrsys sydd newydd gymhwyso fynychu rhaglen i raddedigion, sy'n cynnwys arsylwi ar fwydo trwy diwb trwyn i'r stumog. Rydym yn ystyried a all y bwrdd iechyd prifysgol ein cynorthwyo gyda hyfforddiant pellach.</p>   | <p>Dr Darwish</p> <p>Rheolwyr wardiau</p>  | <p>2017</p> <p>30 Mehefin 2017</p>     |
| 17             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn gwybod y gweithdrefnau cywir o ran bwydo trwy diwb trwyn i'r stumog i gleifion nad ydynt yn cydymffurfio. | 2.5   | <p>Mae holl staff Tŷ Llidiard yn deall y dylid dilyn cynllun gofal person ifanc yn unol â'r hyn a nodir gan y tîm amlddisgyblaethol. Mae pob cynllun gofal yn unigryw.</p> <p>Caiff pob pryder ynghylch diffyg cydymffurfiaeth ei drafod bob dydd (Llun – Gwener) ar lefel y tîm amlddisgyblaethol, a gwneir penderfyniadau ynghylch cadw at ddiben cael triniaeth os nodir bod hynny'n angenrheidiol.</p> <p>Mae pobl ifanc nad ydynt yn fodlon bwydo trwy diwb trwyn i'r stumog yn</p> | <p>Ahmed Darwish / Peter Halford /</p> <p>Chrystelle Walters</p> <p>Rheolwyr wardiau</p> | <p>Ebrill 2017</p> <p>22 Awst 2017</p> |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth   | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|-----------------------------|-------|---|------------------|----------|
|                |                             |       | <p>debygol o ymwrthod bwydo mewn modd corfforol. Mae holl staff Tŷ Llidiard wedi cael hyfforddiant mewn dad-ddwysáu ac ymyriad corfforol cyfyngol.</p> <p>Pan nad yw staff Tŷ Llidiard yn gallu lleoli tiwb trwyn i'r stumog yn bendant, gall anawsterau godi, oherwydd ni chaiff staff pediatrig gynorthwyo o ran lleoli tiwb trwyn i'r stumog ar gyfer rhywun sydd dan ataliaeth.</p> <p>Mae Tŷ Llidiard yn monitro lles corfforol cleifion bob amser. Pe byddai person ifanc mewn perygl corfforol, byddai Tŷ Llidiard yn ceisio cyngor meddygol ar unwaith.</p> <p>Efallai y byddai rhai pobl ifanc yn mynd heibio terfynau uned gwasanaethau iechyd meddwl a'r glasoed gyffredinol. Byddai achosion o'r fath yn annog atgyfeirio ar gyfer cael gofal mwy arbenigol.</p> <p>Gellir gweld hyn yn ein protocol anhwylder bwyta, ac rydym yn</p> |                  |          |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella   | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth  | Swyddog Cyfrifol                | Amserlen   |
|----------------|---|-------|--|---------------------------------|--|
|                |   |       | datblygu protocol bwydo trwyn i'r stumog.  |                                 |  |
| 18             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (siartiau MAR).                                      | 2.6   | <p>Mae'n ofynnol i reolwyr wardiau gynnal archwiliadau wythnosol ar hap o siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth, a rhoi sylw i unrhyw bryderon sydd gan y staff yn unol â hynny.</p> <p>Mae polisi meddyginiaeth yn rhan o'r broses sefydlu ar gyfer staff cymwys.</p>                   | Rebecca James / Sharon Howatson | Rheolwyr wardiau wedi cael adborth ac mae dull newydd yn cael ei weithredu'n barhaus erbyn hyn ac yn cael ei fonitro'n rheolaidd |
| 18             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod statws cyfreithiol y cleifion yn cael ei ysgrifennu'n glir ar siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth. | 2.6   | <p>Mae'n ofynnol i reolwyr wardiau gynnal archwiliadau wythnosol ar hap o siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth, a rhoi sylw i unrhyw bryderon sydd gan y staff yn unol â hynny.</p> <p>Disgwyliadau i gael eu mynegi i'r holl staff meddygol sy'n dechrau gweithio yn Nhŷ Llidiard.</p> | Dr A Darwish                    | Arweinydd Clinigol wedi cael adborth ac mae dull newydd yn cael ei weithredu'n barhaus erbyn hyn ac yn cael ei                   |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella   | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth   | Swyddog Cyfrifol  | Amserlen                                   |
|----------------|---|-------|---|---|--|
|                |   |       |   |   | fonitro'n rheolaidd                        |
| 18             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliad rheolaidd yn cael ei gynnal o feddyginiaethau er mwyn atal cadw stoc gyda'i dyddiad dod i ben wedi mynd heibio yn yr ystafelloedd clinig. | 2.6   | Dalen archwilio wythnosol i gael ei llunio a'i chwblhau bob nos Sul gan Uwch Nyrs Staff ar ddyletswydd.<br><br>Pob cyffur y tu hwnt i'w ddyddiad dod i ben i gael ei waredu yn unol â'r weithdrefn.<br><br>Rheolwyr wardiau i gynnal archwiliadau misol o gydymffurfiaeth.  | Rebecca James / Sharon Howatson   | Mai 2017<br><br>Mai 2017                   |
| 18             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob polisi perthnasol (meddyginiaeth) yn gyfredol ac ar gael i'r staff ym mhob ystafell clinig.  | 2.6   | Mae gweithdrefn Tawelu Cyflym ar waith, mae'n gyfredol, ac mae'n cael ei chynnal yn y ddau glinig. Mae fersiwn electronig yn cael ei storio ar y gyriant Q hefyd. Caiff hyn ei gyfleu i'r staff yn ystod y broses sefydlu.<br><br>Mae polisi'r bwrdd iechyd ar roi meddyginiaeth ar gael i bob aelod o'r staff ac yn rhan o'r broses sefydlu. | Rebecca James / Sharon Howatson<br><br>Chrystelle Walters / Rebecca James | Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd 13 Mehefin 2017 |
| 19             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant  | 2.7   | Trefnir hyfforddiant ar gyfer pob aelod o'r staff yn ystod y broses sefydlu a phan fo angen yn dilyn  | Rebecca James / Sharon  | 30 Mehefin 2017 am ddiweddaria             |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella   | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth   | Swyddog Cyfrifol  | Amserlen                                    |
|----------------|---|-------|---|---|---|
|                | perthnasol.   |       | <p>hyn.</p> <p>Cofnod hyfforddiant staff ar waith. Mae'r rheolwr ardal yn anfon negeseuon e-bost rheolaidd at reolwyr pan fo angen diweddarau hyfforddiant.</p> <p>Weithiau mae'r pwysau ar wardiau'n atal staff rhag mynychu hyfforddiant sydd wedi'i drefnu, ond caiff hyn ei aildrefnu bob amser.</p> <p>Gwiriadau cydymffurfiaeth i'w cynnal bob mis.</p> | <p>Howatson /<br/>Uwch Nyrsys<br/>Staff</p> <p>Rheolwyr<br/>wardiau a'r<br/>Rheolwr<br/>Ardal</p> | d, ac yna'n barhaus a'i fonitro'n rheolaidd |
| 19             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod systemau archwilio priodol ar waith, a'u bod yn cael eu cwblhau er mwyn canfod unrhyw gyfarpar clinigol sydd ar goll neu sydd wedi mynd heibio'i ddyddiad terfyn, a gosod rhai eraill yn eu lle. | 2.9   | <p>O ran yr eitem a nodwyd gan y tîm arolygu, cafodd ei gadael gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, a oedd yn darparu troli argyfwng ar gyfer Tŷ Llidiard yn flaenorol. Mae'r eitem a oedd wedi mynd heibio'i dyddiad terfyn wedi cael ei gwaredu.</p> <p>Mae Tŷ Llidiard bellach yn defnyddio'r bagiau gfael a</p>                             | Rebecca James / Sharon Howatson   | Mai 2017                                    |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella   | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth   | Swyddog Cyrifol  | Amserlen        |
|----------------|---|-------|---|--|-----------------|
|                |   |       | <p>ddarperir gan y bwrdd iechyd. Mae archwiliad ar waith ar gyfer pob offer argyfwng.</p> <p>Archwiliad misol ar waith i sicrhau bod offer o fewn eu dyddiad dod i ben.</p>   |  |                 |
| 20             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sefydlu systemau priodol i sicrhau bod staff yn cwblhau ac yn cadw cofnodion i safon broffesiynol uchel. | 3.5   | <p>Rheolwyr wardiau i lunio rhestr wirio yn seiliedig ar ganllawiau arferion gorau.</p> <p>Ysgrifenyddion meddygol i sicrhau bod y nodiadau achos newydd i gyd yn cynnwys copi o'r rhestr wirio wedi'i osod y tu mewn i bob ffeil claf.</p> <p>Rheolwyr wardiau i gynnal hapwiriadau misol o ddetholiad o ffeiliau a ddewisir ar hap.</p> <p>Trafod yn ystod cyfarfod y Grŵp Goruchwylio Rhaglen (POG) ar 27/06/17.</p> | <p>Rebecca James / Sharon Howatson</p> <p>Sam Stroud</p> | 30 Mehefin 2017 |
| 20             | Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o'r trefniadau cymorth gweinyddol ar gyfer Tŷ Llidiard.                                 | 3.5   | Systemau cymorth gweinyddol i gael eu hadolygu. Nid oes unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer hyn. Bydd angen uwchgyfeirio hyn at yr tîm uwch-reolwyr.  | Chrystelle Walters                                       | Mehefin 2017    |

| Rhif y Dudalen                             | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella  | Safon   | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth   | Swyddog Cyfrifol                                  | Amserlen  |
|--|--|---|---|---|---|
| <b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b> |  |   |   |   |   |
| 22   | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau archwilio a llywodraethu trylwyr ar waith yn Nhŷ Lliardiard i sicrhau y darperir gofal diogel ac effeithiol. | Rhan 2 – Llywodraethu , arweinyddiaeth ac atebolrwydd | <p>Nodwyd bod arweinydd archwilio ar gael yn yr uned.</p> <p>Cynhelir cyfarfodydd ac mae strwythur ar waith i'r staff allu cyfathrebu'n effeithiol ac uwchgyfeirio materion.</p> <p>Cynhelir cyfarfodydd llywodraethu bob yn ail fis.</p>   | <p>Dr Peter Halford</p> <p>Chrystelle Walters</p> | Mae'r arweinwyr archwilio a llywodraethu wedi derbyn adborth, a bydd y trefniadau'n cael eu monitro'n rheolaidd |
| 23   | Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sylw i recriwtio ar gyfer swyddi gwag yn Nhŷ Lliardiard.  | 7.1   | <p>Mae pob cais am swyddi gwag presennol wedi'i gyflwyno. Mae pob swydd yn cael ei gymeradwyo gan y tîm uwch-reolwyr mewn modd amserol.</p> <p>Mae'r trosiant staff yn uchel oherwydd datblygiadau cymunedol helaeth.</p> <p>Mae rhai swyddi bandiau uwch yn anos i'w llenwi.</p> <p>Mae'r broses recriwtio'n hir, sy'n</p> | Tîm Uwch-reolwyr                                  | Mae'r tîm uwch-reolwyr, ynghyd â'r adran Adnoddau Dynol, yn gweithio ar strategaethau recriwtio'n barhaus       |



| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella   | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth   | Swyddog Cyfrifol   | Amserlen   |
|----------------|---|-------|---|--|--|
|                |   |       | arwain at swyddi gwag am gyfnodau hir.  |  |  |
| 23             | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau ei hyfforddiant gorfodol a'i hyfforddiant diweddarau cysylltiedig.                | 7.1   | <p>Cofnod hyfforddiant staff ar waith. Mae'r rheolwr ardal yn anfon negeseuon e-bost rheolaidd at reolwyr pan fo angen diweddarau hyfforddiant.</p> <p>Weithiau mae'r pwysau ar wardiau'n atal staff rhag mynychu hyfforddiant sydd wedi'i drefnu, ond caiff hyn ei aildrefnu bob amser.</p> <p>Cynhelir rhywfaint o hyfforddiant gorfodol trwy Gofnod Staff Electronig a rhoddir amser i nyrsys ei gwblhau. Caiff hyn ei archwilio bob mis i sicrhau cydymffurfiaeth. Caiff ei fonitro hefyd gan y tîm uwch-reolwyr.</p> | <p>Rebecca James</p> <p>Sharon Howatson</p> <p>Sam Stroud, Rebecca James a Sharon Howatson</p> | Pob rheolwr ward wedi cael adborth ac mae dull newydd yn cael ei weithredu'n barhaus erbyn hyn ac yn cael ei fonitro trwy gynnal adolygiad o'r cynllun gweithredu. |
| 23             | Rhaid i'r bwrdd iechyd gefnogi staff i gwblhau hyfforddiant ychwanegol, a fyddai'n helpu'r staff i gynorthwyo a gofalu am gleifion yn Nhŷ Llidiard. | 7.1   | <p>Anogir y staff i wneud cais am hyfforddiant a fydd yn eu helpu yn eu gwaith yn yr uned.</p> <p>Mae'r rheolwr ardal yn anfon yr holl gyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i'r tîm nyrsio. Mae rheolwyr llinell yn</p>   | Rebecca James / Sharon Howatson  | Mai 2017   |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth  | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|----------------|-----------------------------|-------|--|------------------|----------|
|                |                             |       | <p>gwneud pob ymdrech i gefnogi staff o ran cyfleoedd hyfforddi.</p> <p>Yn ddiweddar, buddsoddwyd mewn hyfforddi staff Tŷ Llidiard mewn Therapi Ymddygiad Dialectig (DBT) a Thriongl Gofal. Cytunwyd hefyd i fuddsoddi mewn hyfforddiant Ymwrthedd Di-drais (NVR), sydd i fod i ddechrau ym mis Awst 2017.</p> |                  |          |

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):** .....

**Teitl:** .....

**Dyddiad:** .....